Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

grantiau a thrwyddedau
grants and licences

COETIROEDD GWELL I GYMRU
BETTER WOODLANDS FOR WALES

CYLCHLYTHYR

Rhifyn 6 - Chwefror 2007

Cyfeirnod Cwsmer yn angenrheidiol i holl ddalwyr contractau CGC

Nodyn y golygydd

Mae prif nodwedd y rhifyn cyntaf hwn yn 2007 yn amlygu pwysigrwydd Cyfeirnod Cwsmer i ddalwyr cytundebau Cynlluniau Grant Coetir. Edrychwn ar y sefyllfa bresennol gydag *Internet Explorer 7.0* ™ a Chwiliad Gwybodaeth am Dir, a hefyd cymell Cynllunwyr Rheolaeth i annog perchnogion i gofrestru gyda Coetiroedd Gwell i Gymru (CGG) ac i ddefnyddio'r system electronig, y Gwasanaeth Grantiau a Thrwyddedau Ar-Lein. Mae yna lawer mwy yn ychwanegol at hyn, felly darllenwch yn eich blaenau.

Cyfeirnod Cwsmer (CCau) a'r Cynllun Grantiau Coetiroedd (CGC)

Yng Nghylchlythyr mis Hydref esboniwyd bod rhaid i ymgeiswyr CGG gofrestru gydag Adran Taliadau Gwledig y Cynulliad drwy ddefnyddio Cyfeirnod Cwsmer (CC) cyn y gellir cymeradwyo eu cynllun rheoli CGG. Gofynnwyd i Gynllunwyr Rheolaeth gysylltu ag ymgeiswyr ynglŷn â hyn ac os yw'n briodol i anfon llythyr safonol (a ddaethai gyda'r Cylchlythyr) ymlaen at eu cleientiaid. Os nad ydych wedi gwneud hyn ac am gael copi o'r llythyr, gellir ei gael oddi ar wefan y CC.

Roedd y Cylchlythyr yn sôn hefyd am y trafodaethau pellach roeddem yn eu cynnal â'r Adran Taliadau Gwledig ynglŷn ag a fyddai angen CC ar ddalwyr cytundebau CGC. Gwaetha'r modd, yr ateb i hwn yw **BYDDAI** a pharatowyd llythyr safonol yn esbonio hyn. Gan fod tua 3,700 o gontractau CGC yng Nghymru sy'n cynnwys grantiau heb eu hawlio, a bod nifer o berchnogion heb asiant cadw, byddwn yn anfon y llythyr hwn yn uniongyrchol at ddalwyr contractau yn fuan.

Atodir copi o'r llythyr er gwybodaeth. Mae'n esbonio y byddwn yn cyhoeddi, ar ein gwefan, atebion i gwestiynau cyffredin ac arweiniad i gynorthwyo perchnogion coetiroedd drwy'r broses gofrestru. Byddem yn falch o glywed am broblemau y mae cwsmeriaid yn eu cael wrth gofrestru. Anfonwch y rhain at con.sw@forestry.gsi.gov.uk fel y gellir eu casglu at ei gilydd a chynnig arweiniad defnyddiol.

Darperir y cyngor diweddaraf ynglŷn â'r Chwiliad Gwybodaeth am Dir ac Internet Explorer 7.0™ dros y dudalen



Mae angen Llythyr Awdurdodi ar gyfer ceisiadau CGG os yw'r asiant yn llofnodi ar ran y perchennog

Er mwyn osgoi unrhyw oedi dianghenraid wrth dalu'r grant i chi, rydym yn annog pobl i gofrestru yn yr wythnosau nesaf cyn i'r Swyddfeydd Rhanbarthol orlifo â Ffurflenni Ceisiadau Unigol 2007 o bob fferm yng Nghymru!

Bydd y CC yn cael ei ddefnyddio i gofrestru buddiolwr y grant yn y lle cyntaf, h.y. ymgeisydd y CGC. Am y tro, bydd y Comisiwn Coedwigaeth yn parhau i dalu'r ceisiadau grant i'r talai a nodwyd ar y contract CGC neu gontract CGG. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau eraill.

CGG – Gwrthdaro rhwng ymarferoldeb Chwiliad Gwybodaeth am Dir (ChGD) a Fersiwn 7 *Internet Explorer*

Ym mis Rhagfyr derbyniodd Cynllunwyr Rheolaeth hysbysiad brys na fyddai Gwasanaeth Rhyngrwyd ChGD y Comisiwn Coedwigaeth yn gweithio o gael ei gyrchu gan borwr a ffurfweddwyd drwy ddefnyddio meddalwedd diweddaraf Microsoft, *Internet Explorer 7.0™* .

Amlygwyd y wybodaeth ynglŷn â nad oedd y systemau yn cyd-fynd am gyfnod ar wefannau CCCymru a CCLloegr fel ei gilydd; eto i gyd derbyniwyd adroddiadau, yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd, am nifer ohonoch sydd yn ddiweddar wedi derbyn a mewnosod diweddariad awtomatig Microsoft ™ mewn perthynas ag uwchraddio eich pecynnau meddalwedd *Internet Explorer 6.0 ™* cyfredol i argraffiad diweddaraf meddalwedd *Internet Explorer 7.0 ™*

Rhoddwyd cyngor ar y pryd na fyddai unrhyw ddewis arall ond dadosod *Internet Explorer 7.0™* ac awgrymwyd eich bod yn ceisio cyngor proffesiynol ynglŷn â sut y dylid gwneud hyn o safbwynt eich cyfrifiadur personol eich hun.

Hefyd, efallai y dymunwch ymweld â phrif wefan *Microsoft ™* am wybodaeth ynglŷn ag *Internet Explorer 6.0 ™* a sut i'w lawr lwytho. Y cyswllt ar gyfer y dudalen hon yw http://www.microsoft.com/windows/ie/ie6/downloads/default.mspx#ELC.

Er y cynhaliwyd profion erbyn hyn sy'n dangos bod y broblem wedi ei datrys, yn dechnegol, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn dal i gymeradwyo a chefnogi defnyddio dim ond IE 6.0 – byddai risg uwchraddio i fyny i'r defnyddiwr. Os yw defnyddwyr yn uwchraddio a bod problemau'n ymddangos, gofynnwn i chi rhoi gwybod i'n Tîm Gwasanaethau Technegol er mwyn iddynt wneud ymchwiliadau pellach.

Asiantau yn llofnodwyr

Fel yn achos yr hen Gynllun Grant Coetir, bydd angen i asiantau sydd am weithredu yn llofnodwyr ar ran ymgeiswyr, gyflwyno llythyr i CCC oddi wrth yr ymgeisydd sy'n rhoi caniatâd ac sydd wedi ei lofnodi.

Gellir cael templed llythyr awdurdodi oddi wrth y Tîm Gwasanaethau technegol – manylion ar gyfer cysylltu tua diwedd y rhifyn hwn.

Cynlluniau cwympo ac ailstocio 20-mlynedd sy'n angenrheidiol ar gyfer eu cyflwyno gyda'r Cynllun Rheoli

Grŵp Technegol CGG

Diolch i bawb a ddangosodd ddiddordeb mewn ymuno â Grŵp Technegol CGG. Dewiswyd Julian Miller, Graham Heath a Rob Marsh i ymuno â'r panel. Cynhelir y cyfarfod cyntaf ym mis Chwefror.

Gofynion mapio ar gyfer ymgynghori

Derbyniwyd ychydig gwestiynau ynglŷn â threfniadau ymgynghori yn CGG. Ceir esboniad y bydd cymeradwyaeth amlinellol i gynlluniau dros gyfnod o 10 mlynedd, ar drydedd dudalen y llyfryn argraffedig 'Arweiniad i rannu gwybodaeth ac ymgynghori yn Coetiroedd Gwell i Gymru'. Cymeradwyir cymorth grant a thrwydded cwympo coed mewn manylder ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, ond os na chynigir unrhyw newidiadau mawr am y 5 mlynedd nesaf, ni fydd angen mwy o ymgynghori.'

Ar gyfer coedwigoedd planhigfa, lle bwriedir cwymp-glirio, mae angen cynllun cwympo ac ailstocio dros 20 mlynedd, yn unol â Safon Cynllun Sicrhau Coetir y DU(SCSCDU). Bydd cynllun tymor hir i gwympo/ailstocio yn osgoi'r angen am ail-ymgynghori ar ôl y Cynllun Gweithrediadol 5 mlynedd gwreiddiol. Cyfrifoldeb y Swyddog Coetir sy'n ymdrin â'r achos fydd penderfynu a fydd hyn yn angenrheidiol ar gyfer coetiroedd bach/coetiroedd fferm.

Gofynnir i chi anfon dau fap gyda'r cais. Mae angen i'r cyntaf ddangos y cynigion cwympo ac ailstocio ar gyfer y pum mlynedd cyntaf yn fanwl, ac fe fydd yn cael ei ddigido gan y Tîm Gwasanaethau Technegol. Dylai'r ail amlygu'r cynlluniau tymor hir, a bydd yn cael ei sganio a'i atodi i'r achos.

Nodwch na ellir cymeradwyo cynllun sydd heb gael yr ymgynghoriad a nodwyd yn y Cynllun Sylfaenol. Os na roddir tystiolaeth o ymgynghori, dychwelir y cynllun i'r cynlluniwr.
Ni fydd y Swyddog Coetir ond yn cynnal ymgynghoriad pan fo'r Cynlluniwr wedi ceisio ond wedi methu â chael ymateb oddi wrth ymgynghorai statudol neu mewn achosion lle bo'r cynlluniwr a'r ymgynghorai yn methu â chytuno.

Newidiadau staff

Gyda phum penodiad newydd yn yr un nifer o fisoedd, mae darnau olaf y pos yn disgyn i'w lle. Cymerodd Greg Vickers rôl Rheolwr Gweithrediadau Grantiau a Thrwyddedau ym mis Hydref, pan gychwynnodd ar y dasg o lenwi rôl Rheolwr Cynorthwyol Grantiau a Thrwyddedau a swydd Rheolwr Technegol yn fuan. Canlyniad y chwilio oedd penodi Patrick Green i swydd Rheolwr Cynorthwyol, gan ddod o rôl Swyddog Coetir yng Nghanolbarth Cymru, a Martyn Potton yn ymuno â thîm CCCymru yn Rheolwr Technegol, gan adael ei swydd Rheolwr SGDd yng Nghaergrawnt. Hefyd cymerodd Simon Mead swydd yn Swyddog Coetir yng Ngorllewin Cymru yn lle Richard Curtis ac mae Ken Smith yn dychwelyd o'r Alban ac yn ailymuno â'r tîm cyn bo hir yn Swyddog Coetir yn lle Patrick.

Cofrestrwch â Gwasanaeth Ar-lein G a Th CCC yn awr a rheoli'ch cais CGG o'ch cadair esmwyth!

Defnyddio gwasanaeth Ar-lein G a TH

Mae CCC yn cymell Cynllunwyr Rheolaeth i annog perchnogion i gymryd mantais lawn o'n Gwasanaeth Ar-lein G a Th.

Mae wedi ei gynllunio â'r defnyddiwr mewn golwg, ac mae llawer o agweddau i'r system a fydd o fudd i'r asiantau a'r perchnogion tir fel ei gilydd, ac yn caniatáu iddynt reoli eu contract CGG yn llawer haws unwaith iddo gael ei gymeradwyo.

Mae'r ffordd at gofrestru drwy ein gwefan, ac wrth gwblhau proses gofrestru syml unwaith yr anfonir neges e-bost atoch yn cadarnhau enw defnyddiwr a chyfrinair a fydd yn eich galluogi i fewngofnodi'n llwyddiannus i'r system unrhyw bryd y bydd yn gyfleus.

Prif nodweddion y gwasanaeth hwn yw y bydd y perchennog neu'r asiant yn gallu dilyn datblygiad y cynllun rheoli ar-lein wrth iddo gael ei baratoi. Unwaith y bydd y cynllun yn cael ei gymeradwyo byddant yn gallu gofyn am welliannau, rheoli eu cynllun gan gynnwys adroddiadau diweddar a gwneud ceisiadau ar-lein.

I gofrestru ewch i wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru gan ddefnyddio'r cyswllt www.eforestry.gov.uk Ar y llaw arall ewch i adran Grantiau a Thrwyddedau Cymru, clicio ar y cyswllt ar ben uchaf ochr chwith y ddewislen, G a Th Ar-lein. O'r fan hon sgroliwch i lawr i waelod y dudalen a dewis Ewch i Wasanaethau Ar-lein G a Th. Bydd yr opsiwn sydd wedi ei nodi gyntaf, Gwasanaeth Ar-lein G a Th- i wneud cais grant ar lein a bydd yn eich arwain at y Gwasanaeth G a Th Ar-lein lle gallwch ddewis yr opsiwn cliciwch yma i gofrestru.

Unwaith y byddwch wedi cyrchu'r dudalen hon fe welwch eicon cymorth ar ffurf marc cwestiwn a fydd yn rhoi mwy o wybodaeth i chi ynglŷn â sut i fynd ymlaen i gofrestru.

Rhaid i chi ddefnyddio eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair er mwyn cyrchu'r system ac er mwyn actifadu eich cyfrif yn llawn bydd angen i chi anfon neges e-bost i'r Tîm Gwasanaethau Technegol a rhoi gwybod iddynt eich bod wedi gosod i fyny yn ddefnyddiwr newydd. Wedyn bydd y tîm yn eich cysylltu chi â'ch achos a byddwch yn gallu gweld manylion eich cynllun yn llawn.

Oedi gyda digido yn y Gogledd

Trwy fis Rhagfyr bu tîm Gwasanaethau Technegol CGG yn Rhuthun yn fwy prysur na'r arfer, ond yn wynebu'r math anghywir o heriau technegol!

Achoswyd problemau sylweddol gan gamgymeriad rhaglennu meddalwedd ac wrth osod system deleffon newydd. Mae'r tîm wedi bod wrthi hefyd yn digido nifer o hawliadau CGC. Roedd lleoli'r namau hyn a datrys y problemau a gafwyd yn golygu bod y tîm heb y cyfleusterau angenrheidiol am gyfnod eithaf hir.

Ni allwn ond ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra a achoswyd oherwydd y digwyddiadau hyn, a'ch sicrhau bod y problemau i gyd wedi eu datrys erbyn hyn a bod y tîm yn awr wedi clirio'r holl geisiadau a oedd wedi cronni.

Manylion ar gyfer cysylltu a chysylltau sydyn ar y dudalen gyferbyn

Gwybodaeth Ddiweddaraf Safle Rhyngrwyd

Gellir gweld templedi a dogfennau arweiniad Aseswr arbenigol Coedwigaeth Orchudd Ddi-dor (CGD) / Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol (PSCH) ar y brif wefan Llyfrgell Gyfeiriadurol CGG, http://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-6upk3s

Sylwer fod yr ychwanegiadau mwyaf diweddaraf o SA03 (CGD) a SA08 (PSCH) yn y broses o gael eu diweddaru ac unwaith yn orffenedig yn cael ei rhoi yn lle'r rhifynnau CGG cyn lansiad.

Sylwer hefyd fod yna "Canllaw sut i" GOH05 "Sut i baratoi a cyflwyno cynllun rheoli" ar gael ar yr un dudalen. Yn yr un modd mae yna 90% o gopiau o ffurflenni cais MP ac SA sydd wedi eu cwblhau, ailfformatio / cywiro'n ddiweddar hefyd ar gael.

Manylion ar gyfer cysylltu

- Ymholiadau cyffredinol CGG: Ffôn 0845 604 0845 neu cyrchwch www.forestry.gov.uk
- Ymholiadau technegol: E-bost bww.ts@forestry.gov.uk
- Cyfeirnod Cwsmeriaid: E-bost con.sw@forestry.gsi.gov.uk
- Cyswllt gwefan *Microsoft*: http://www.microsoft.com/windows/ie/ie6/downloads/default.mspx#ELC.
- Gwasanaeth Ar-lein G a Th: Cyswllt www.eforestry.gov.uk
- Ymholiadau Taenlen Gost GGC: E-bost wig.costings@forestry.gsi.gov.uk
- Awgrymiadau ar gyfer rhifynnau'r dyfodol: E-bost Sam.davies@forestry.gsi.gov.uk

Rhifyn Nesaf:

Ebrill 2007

Cewch y rhifyn diweddaraf ac ôl-rifynnau ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru www.forestry.gsi.gov.uk

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales